Wedi gwneud cais i gael siarad yn Gymraeg.

Cadi Jones, Cadeirydd Cyngor Cymuned,
Waunfawr.

Waunfawr Community Council
Mae C.C.W. wedi anfon 2 lythyr
atoch yn mynegi ein pryder am y
datblygiad yr Glyn Rhonwy ers iddo
gynnyddu yn ei faint.
Mae S.P.H. wedi ymateb i'r
llythyr cyntaf ac wedi ateb y
rhan fwyaf o'n cwestiynau ac
fe glywais fwy o fanylion bore 'ma.
Ond hoffwn wneud un pwynt
bach yn ychwanegol sef PWYSLEISIO
diogelwch plant ar y ffordd i'r
ysgol ac ar y ffordd adref.
Mae'r ffordd o'r cattle grid
i'r ysgol yn gul iawn, iawn
fel y gwyddoch, a dim palmant.

Petai oedolyn yn cerdded gyda pram
a phlentyn arall yn ei ~~l~~law
yn dod wyneb yn wyneb efo
lorri enfawr i ba le diogel
fysa nhw'n gallu mynd?

Does dim lle i bram a
H.G.V. basio ei gilydd mewn rhai
manau ar y ffordd.

Hefyd mae disgyblion Waunfawr
sydd yn mynd i Ysgol Uwchradd,
Brynrefail yn aros am y bws
ar y groesffordd ar waelod ffordd
Cefn Du. Does dim palmant yma.
A fydd y plant yn ddiogel?

Rwyf wedi gweld cynlluniau SPH
i wella'r groesffordd hon ond nid
wyf yn berffaith fodlon y

bydd hyn yn diogelu plant y dyfodol.

A oes unrhyw ffordd arall y gellir ei defnyddio fel mynediad i chwarel / dros dro neu yn barhaol er mwyn diogelwch y plant?

Diolch yn fawr.